

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mai

Disgrifiad o'r modiwl

Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o ddamcaniaethau cyfieithu a astudiwyd yn flaenorol drwy eu cymhwyso at y dasg ymarferol o gyfieithu. Byddant yn cymryd rhan mewn gwaith cyfieithu proffesiynol ac ar y cyd, adolygu cymheiriaid, rheoli ansawdd a chyfieithu arbenigol. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio ac yn gwerthuso'r technolegau cyfieithu cwmwl diweddaraf, gan gynnwys cofion cyfieithu a chyfieithu peiranyddol, ac yn ymgymryd â thasgau cyfieithu cymhleth o'r iaith ddewisol i Saesneg, ac i'r gwrthwyneb. Byddwch yn cefnogi'r myfyrwyr wrth ymgymryd â thasgau ymarferol, er enghraifft cyfieithu clyweledol a gwirfoddoli â chymunedau cyfieithu agored.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gradd mewn cyfieithu, cyfieithu ar y pryd neu faes cysylltiedig (ieithyddiaeth, ieithoedd, didacteg, ac ati). Mae gradd mewn pwnc arall hefyd yn dderbyniol os oes gennych brofiad sylweddol o addysgu cyfieithu ac o weithio fel cyfieithydd proffesiynol ôl-raddedig;
- cymhwysedd siaradwr brodorol neu bron yn frodorol mewn Saesneg ysgrifenedig a llafar.
- gwybodaeth am un o'r ieithoedd canlynol, ar wahân i Saesneg, ar Lefel C1 (Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd) neu uwch: Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg;
- profiad diweddar o addysgu cyfieithu mewn sefydliad addysg uwch / ar lefel drydyddol;
- rhywfaint o brofiad proffesiynol diweddar o weithio yn y sector cyfieithu;
- gwybodaeth am o leiaf un o'r meysydd canlynol a pharodrwydd i ddatblygu gwybodaeth yn y meysydd sy'n weddill: theori cyfieithu, technoleg cyfieithu, cyfieithu clywedol, cyfieithu arbenigol (technegol, meddygol neu gyfreithiol), lleoleiddio gemau, apiau neu'r we, cyfieithu ym maes busnes, a chyfieithu ar gyfer marchnata a hysbysebu;
- y gallu i diwora myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd ieithyddol a diwylliannol, na fydd Saesneg yn iaith gyntaf i gyfran ohonynt;

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- Cymhwyster ôl-raddedig mewn disgyblaeth berthnasol;
- profiad o addysgu cyfieithu ar lefel ôl-raddedig;
- profiad o addysgu ar-lein ac o bell.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r modiwl hwn ar gael i'w astudio ledled y byd, a chaiff ei diwora ar-lein yn gyfan gwbl drwy fforymau trafod anghydamseredig. Un o'ch prif rolau fydd cymedroli'r fforymau trafod ar-lein hyn, er mwyn annog y myfyrwyr i gymryd rhan, cydweithio, a chynnal amgylchedd gwaith cefnogol.

Gall myfyrwyr astudio'r modiwl hwn yn Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg neu Tsieinëeg, ar y cyd â Saesneg. Bwriedir cyflwyno Arbenigedd Arabeg – hefyd ar y cyd â Saesneg – ym mis Hydref 2018 Saesneg yw iaith yr addysgu. Caiff grwpiau tiwtorial eu trefnu fesul cyfuniad iaith, h.y. Saesneg a Ffrangeg, Saesneg ac Almaeneg, ac ati, fel eich bod yn addysgu yn y cyfuniad o ieithoedd y mae gennych hyfedredd ynddynt*. Bydd y myfyrwyr o'r Saesneg i'w hiaith arall, ac i'r gwrthwyneb, a rhaid i chi allu rhoi adborth ar y ddwy iaith.

*Nodwch yn y blwch "arbenigedd" yn adran A o'r ffurflen gais pa iaith y mae gennych hyfedredd ynddi. Gallwch gynnwys mwy nag un os yw'n briodol.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

| | |
|--|-----|
| Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus: | 60 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr: | 3 |
| Dull cyflwyno aseiniadau: | 2 |
| Lefel y gofynion TGCh: | 3 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: | 15 |
| Band cyflog: | 5 |
| Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu: | 4.5 |